9/5/2023

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

**Adroddiad Arolygiad Estyn ar Ysgol Pentrecelyn**

Mae'n bleser mawr gen i eich hysbysu bod Estyn (yr arolygiaeth addysg) wedi rhoi adroddiad disglair i Ysgol Pentrecelyn yn dilyn ei harolygiad diweddar o'r ysgol.

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn amlygu bod Ysgol Pentrecelyn yn ysgol ragorol sy'n darparu addysg a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel trwy addysgu effeithiol a chwricwlwm cyfoethog.

Gallwch ddarllen yr adroddiad arolygu llawn yma:
https://www.estyn.llyw.cymru/inspection-reports

Mae rhai o uchafbwyntiau'r adroddiad yn cynnwys sylwadau fel:

- *"Mae Ysgol Pentrecelyn yn ysgol gartrefol, hapus lle mae disgyblion ac oedolion yn cydweithio'n effeithiol. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol."*
- *"Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion o bob oed."*
- *"Mae'r ysgol yn darparu'n gadarn ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion."*
- *"Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden."*
- *"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymraeg a Saesneg y disgyblion yn effeithiol. Maent yn cael amrediad pwrpasol o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau diddorol ac ymarferol."*
- *"Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n cynnal diddordeb y disgyblion a chodi eu dyheadau am yrfaoedd a byd gwaith."*
- *"Mae'r cyfoeth o ardaloedd dysgu o fewn a thu allan i'r adeiladau yn cefnogi lles y disgyblion yn llwyddiannus."*
- *"Mae'r athrawon yn annog meddylfryd gadarnhaol ymysg y disgyblion ac yn pwysleisio pwysigrwydd herio eu hunain a pheidio â bod ofn methu weithiau."*
- *"Mae'r ysgol yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad y disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn hynod foesgar a charedig â'i gilydd, a gyda'r staff ac ymwelwyr."*
- *"Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol cadarn a chlir ar gyfer yr ysgol."*
- *"Penderfynwyd buddsoddi mewn offer cyfrifiadurol ar gyfer bob disgybl. Bellach, mae effaith hyn i'w gweld ar gynnydd y disgyblion."*

- *“Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol. Maent yn dangos caredigrwydd gwirioneddol at eu cyd-ddisgyblion, ac yn ystyried eu hanghenion a’u teimladau. Mae eu hymddygiad yn ystod gwasanaethau torfol yn arbennig.”*
- *“Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg graenus a naturiol, gan gynnwys disgyblion lle nad yw’r Gymraeg yn iaith yr aelwyd.”*

Mae’r adroddiad yn gwneud dim ond dau argymhelliad ac mae’r ysgol eisoes yn mynd i’r afael â nhw trwy ein ffocws cryf ar welliant parhaus.

Rwy’n siŵr y byddwch am ymuno â mi i ddiolch a llongyfarch y pennaeth, yr holl staff ynghyd â phawb sy’n ymwneud â rhedeg yr ysgol am adroddiad mor wych. Fel Llywodraethwyr rydym hefyd am estyn ein diolch i chi, teulu ehangach yr ysgol, am eich cefnogaeth cyson.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r adroddiad (neu unrhyw fater arall) cysylltwch â Mr Evans neu unrhyw un o lywodraethwyr yr ysgol a byddwn yn fwy na pharod i helpu.

Mae cyhoeddi’r adroddiad hwn yn foment arwyddocaol yn natblygiad parhaus yr ysgol. Mae’n tanlinellu bod Ysgol Pentrecelyn yn ysgol hynod lwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Mae’n enghraifft gadarn o sut y gall ysgol wledig, llai ei  maint, roi addysg gref ac effeithiol i’n plant, wedi ei ategu gyda phrofiadau allgyrsiol cyfoethog ac eang.

Llongyfarchiadau mawr i bawb ar adroddiad arolygu gwirioneddol ragorol. Mae’n ein rhoi mewn sefyllfa wych wrth i ni edrych ymlaen at ddyfodol cadarnhaol a chyffrous i’n hysgol – a’r cyfan gyda’r nod o roi’r dechrau gorau posib mewn bywyd i’n plant.

Yn gywir iawn

Llyr Gruffydd

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Pentrecelyn